


.....
STRATEGAETH REOLI
YR UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD
2020-21
.....



Tabl Cynnwys

Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd a werthir i ddefnyddwyr y DU	2
Mynediad pysgod cregyn anghyfreithlon i'r gadwyn fwyd	3
Troseddoldeb yn y sector cig coch gyda ffocws ar arferion sy'n gysylltiedig â dwyn a phrosesu anghyfreithlon	4
Twyll Dosbarthu Ewropeaidd o fewn y sector bwyd.....	5
Cyflenwad bwyd anghyfreithlon sy'n gwasanaethu galw cymunedol penodol	6
Defnyddio llwyfannau e-fasnach i hwyluso troseddau bwyd	7
Beth sy'n agored i droseddau bwyd o fewn gwasanaeth bwyd, a pha mor gyffredin yw hyn.....	8
Covid-19	9
Y camau nesaf	9

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn rhan o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Ei rôl yw canfod, atal ac ymchwilio i dwyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn hefyd yn cynnwys diod a bwyd anifeiliaid.

Mae Strategaeth Reoli'r Uned ar gyfer 2020-21 yn amlinellu blaenoriaethau troseddau bwyd cyfredol yr Uned, a'r camau yr ydym ni'n eu cymryd i atal troseddau bwyd, i rwystro ac i amharu ar droseddwyr bwyd ac i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell. Rydym ni hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle rydym ni wrthi'n datblygu ein dealltwriaeth fel y gallwn ni wella ein dull o weithredu ar droseddau bwyd.

Ein Blaenoriaethau

Mae ein blaenoriaethau yn cael eu llywio gan ein Hasesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020, a gynhyrchir ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban. Mae ein blaenoriaethau'n deillio o asesu sawl agwedd – graddfa'r niwed corfforol, ehangder y mater a difrifoldeb yr effaith. Rydym ni'n defnyddio methodoleg [Rheoli Risg wrth Orfodi'r Gyfraith \(MoRiLE\)](#) sy'n caniatáu i ni gymharu gwahanol fathau o broblemau yn gyson, ond rydym ni hefyd yn ystyried meysydd lle mae'r angen am well dealltwriaeth o faes yn ein harwain i'w flaenoriaethu. Mae rhai o'n blaenoriaethau'n ymwneud â nwyddau penodol, mae eraill yn ymwneud â themâu neu dechnegau troseddu ehangach. Er ein bod ni'n blaenoriaethu rhai mathau o gynhyrchion, mae'n rhaid i ni hefyd bwysleisio y bydd y rhan fwyaf o weithredwyr yn endidau cyfreithlon sy'n darparu cynhyrchion diogel a dilys.

Rydym ni wedi bod yn gweithio i gynnal ein dealltwriaeth o effaith Covid-19 ar droseddau bwyd. Fe nodwn hefyd yr angen parhaus i fod yn barod wrth i ni gyrraedd diwedd y cyfnod pontio yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Llunio ein hymateb

Wrth bennu ein dull, rydym ni'n defnyddio'r dull 4P (fel y mae'n cael ei alw'n Saesneg), a ddiffinnir gan [Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig y Swyddfa Gartref](#). Byddwn ni bob amser yn ymdrechu i atal a diogelu rhag troseddau bwyd, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn barod i weithredu. Pan fydd troseddau bwyd yn digwydd, byddwn ni'n arwain, yn cydlynu neu'n cefnogi gweithredu cadarn yn erbyn y rhai sy'n cymryd rhan. Amlinellir prif agweddau ein gweithgarwch ar draws y pedair ffrwd isod.

Atal	Diogelu	Paratoi	Erlid
Lleihau'r modd, y cymhelliant neu'r cyfle i gyflawni troseddau bwyd.	Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r methodolegau a'r ffactorau sy'n galluogi ac yn gyrru troseddau bwyd.	Meithrin dealltwriaeth, gallu a chapasiti o amgylch troseddau bwyd gyda phartneriaid a'r diwydiant.	Dod â throseddwyr o flaen eu gwell.
Codi ymwybyddiaeth o'r bygythiadau, y risgiau a'r canlyniadau sydd ynghlwm â throseddau bwyd.	Gweithio gyda phartneriaid a'r diwydiant i gael gwared ar feysydd sy'n agored i droseddau bwyd.	Datblygu a chynnal perthynas waith gryf gan gynnwys gyda'n cymheiriaid rhyngwladol.	Adennill enillion ariannol a gafwyd yn droseddol trwy ddefnyddio Deddf Enillion Troseddau 2002.

Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd a werthir i ddefnyddwyr y DU

Gellir dadlau mai cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd sy'n peri'r risg uchaf o'r holl feysydd troseddau bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys y cemegyn gwenwynig 2,4-dinitrophenol (DNP), wedi'i farchnata fel cymorth colli pwysau. Yn yr achosion mwyaf eithafol, gall DNP ladd, ac mae wedi'i gysylltu â phedair marwolaeth yn y DU yn 2019 ac un marwolaeth arall yn hanner cyntaf 2020.



Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd wedi nodi a gweithredu yn erbyn gwerthwyr DNP ac wedi cefnogi achosion barnwrol llwyddiannus yn y DU a thramor, o dan gyfraith bwyd a chyfraith droseddol. Mae'r Uned yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod y sylwedd hwn yn destun y mesurau rheoli deddfwriaethol mwyaf effeithiol.

Mae Hydoddiant Mwynol Gwyrthiol (*Miracle Mineral Solution* neu MMS), sy'n doddiant sodiwm clorit, yn cael ei farchnata fel atchwanegiad â manteision iechyd. Nid yw'n hysbys a yw MMS wedi arwain at unrhyw farwolaethau yn y DU, ond mae ganddo'r gallu i achosi salwch difrifol ac rydym ni wedi nodi'r defnydd ohono yn cael ei hyrwyddo ar gyfer cyflyrau fel awtistiaeth a Covid-19.

Ers 2015, dim ond ychydig o fygythiadau newydd tebyg i DNP ac MMS sydd wedi'u nodi ar y farchnad. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn parhau'n wiliadwrus i nodi cynhyrchion peryglus newydd nad ydynt yn fwyd sy'n dod i mewn i'r farchnad.

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth (*intelligence*)


- Hunaniaeth a gweithgareddau gwerthwyr DNP, MMS a chynhyrchion peryglus eraill nad ydynt yn fwyd yn y DU a thramor
- Gweithgarwch gwerthu trwy'r We Dywyll, gyda sylw arbennig ar DNP
- Deall sylfaen defnyddwyr DNP, i lywio gwaith i addysgu defnyddwyr a rhwystro'r defnydd ohono
- Cynhyrchion newydd sy'n dod i'r amlwg ar y farchnad gyda honiadau iechyd neu fuddion eraill sy'n peri risg i iechyd pobl

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Dwyn camau yn erbyn y rhai sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn i'w cymryd yn y DU
- Cefnogi partneriaid i nodi llwybrau mynediad DNP i'r wlad
- Gweithio ar draws y llywodraeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risgiau
- Nodi sylweddau newydd o bwys sy'n fygythiad yn y maes hwn trwy sganio'n rhagweithiol ac ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc

Mynediad pysgod cregyn anghyfreithlon i'r gadwyn fwyd

Mae'n hysbys bod cynaeafu pysgod cregyn anghyfreithlon yn digwydd mewn gwahanol leoliadau o amgylch arfordir y DU. Mae gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at wella dealltwriaeth o raddfa'r gweithgarwch hwn, a lefelau'r trefnu sy'n rhan o hyn.



Mae gennym ni fwy o hyder yn ein gwybodaeth am y llwybrau a ddefnyddir i gael y cynnyrch hwn i mewn i'r gadwyn fwyd – sef ffocws penodol yr Uned, gan nodi rolau partneriaid eraill o ran gorfodi yng nghyd-destun cynaeafu pysgod cregyn ar y môr ac ar yr arfordir.

Mae sawl llwybr posib ar gyfer gwerthu'r cynnyrch hwn ymlaen, gan gynnwys allforio posib i farchnadoedd yr UE. Mae'n debygol iawn bod ambell gynnyrch a werthir i'r gadwyn fwyd yn cael ei gam-gynrychioli o ran tarddiad ac ansawdd, gan beri risgiau i iechyd pobl.

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth


- Sut mae cynnyrch a gynaeafir yn anghyfreithlon yn cael ei werthu i gadwyni cyflenwi bwyd a lefel a natur y troseddoldeb sy'n ofynnol i gael y cynnyrch anghyfreithlon i'r farchnad
- Os, sut, ac ar ba gyfradd y caiff pysgod cregyn a gynaeafir yn anghyfreithlon eu hallforio o'r DU
- I ba raddau y mae trefnu, rhyngweithio a chydlynu ymhlith gwahanol grwpiau y mae'n hysbys eu bod yn ymwneud â chynaeafu pysgod cregyn yn anghyfreithlon

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Gorfodi ac ymchwilio ar y cyd o ran cynnyrch anghyfreithlon sy'n dod i mewn i'r gadwyn fwyd
- Cefnogi diwrnodau gweithredu amlasiantaethol i atal ac amharu ar gynaeafu pysgod cregyn yn anghyfreithlon
- Dadansoddi gwybodaeth i nodi cysylltiadau, tueddiadau a manau sy'n peri problemau o fewn y maes troseddu hwn, yn ogystal â'r prif unigolion mewn cadwyni cyflenwi anghyfreithlon y dylid targedu ymyriadau gweithredol tuag atynt
- Ystyried caledu targedau a chyflwyno mesurau gwrth-dwyll ychwanegol o fewn cadwyni cyflenwi pysgod cregyn
- Cynnal asesiadau o fregusrwydd i dwyll gyda busnesau a allai gael eu targedu gan werthwyr pysgod cregyn a gynaeafwyd yn anghyfreithlon

Troseddoldeb yn y sector cig coch gyda ffocws ar arferion sy'n gysylltiedig â dwyn a phrosesu anghyfreithlon

Mae dwyn da byw a phrosesu anghyfreithlon yn parhau i fod yn brif bryderon mewn perthynas â chig coch, yn arbennig o ran sut mae'r cynnyrch canlyniadol yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ac yn cyrraedd defnyddwyr. Gall y troseddoldeb hwn arwain at werthu bwyd a allai fod yn anniogel ac na ellir ei olrhain, gan beri risgiau i iechyd pobl.



Dim ond trwy werthu'r cynnyrch ymlaen y ceir y budd ariannol o ddwyn da byw. Defnyddir sawl methodoleg troseddu bwyd wedi hynny i gael cig o dda byw wedi'i ddwyn i'r farchnad, gan gynnwys prosesu anghyfreithlon, camgynrychioli a thwyll dogfennau. Mae troseddau bwyd yn y sector cig coch yn parhau i fod yn fater emosiynol.

Yn y maes hwn rydym ni hefyd yn nodi gofyniad am waith pellach i ddeall helgig wedi'i botsio (*poached game*) a gaiff ei brosesu'n anghyfreithlon, dargyfeirio (*divert*) sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn anghyfreithlon i'r gadwyn fwyd a'r rôl y mae broceriaid bwyd yn ei chwarae yn y sector hwn.

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth

- Y dulliau a ddefnyddir i roi cig wedi'i ddwyn yn y gadwyn fwyd, gan gynnwys lle gellir prosesu cig wedi'i ddwyn yn anghyfreithlon mewn busnesau sy'n ymddangos yn gyfreithlon
- Lefel y troseddoldeb a'r materion penodol a nodwyd o ran trin helgig
- Dargyfeirio sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn anghyfreithlon yn ôl i'r gadwyn fwyd
- Rôl broceriaid bwyd a sut allai gweithgarwch yn y maes hwn hwyluso'r dull troseddu bwyd hwn

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Gwellu'r llif gwybodaeth gan ein partneriaid am ddwyn da byw a lladd anghyfreithlon
- Sicrhau ymateb tactegol prydol ac effeithiol i faterion a nodir trwy gydweithrediad â'r heddlu ac awdurdodau lleol
- Nodi unrhyw wendidau yn y sector helgig a sut y gellid cael gwared arnynt
- Proffilio ymddygiad troseddwr i nodi arwyddion rhybuddio cynnar bod pobl yn dechrau troseddu yn y sector cig coch
- Cyfathrebu erlyniadau llwyddiannus o droseddwr i godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau troseddoldeb

Twyll Dosbarthu Ewropeaidd o fewn y sector bwyd

Twyll Dosbarthu Ewropeaidd (EDF) yw pan fydd person neu bersonau yn dynwared busnesau cyfreithlon er mwyn caffael nwyddau neu wasanaethau trwy dwyll gan gyflenwr tramor. I ddechrau, mae'n bosibl na chaiff EDF ei ganfod, a dim ond wrth gael cais i dalu anfoneb nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth amdani y mae busnesau'n sylweddoli bod rhywun wedi dynwared eu hunaniaeth. Yn y pen draw, y cyflenwr tramor sy'n ysgwyddo cost y twyll.



Unwaith y ceir bwyd trwy'r llwybr hwn, gall troseddau bwyd pellach ddigwydd wrth drin, ail-brosesu, storio a dosbarthu'r cynnyrch, er enghraifft o ran camgynrychioli ansawdd, tarddiad neu ddyddiad para. Mae yna risgiau hefyd na fydd modd cydymffurfio ag agweddau fel cynnal a chadw cadwyn oer, gan beri risg i ddefnyddwyr.

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn ymwybodol o ymdrechion EDF llwyddiannus yn effeithio ar fusnesau yn y DU a'u cyflenwyr tramor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er ein bod yn asesu bod maint y broblem yn debygol o fod yn fwy sylweddol nag y mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn ei awgrymu.

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth

- Graddfa a natur y troseddau EDF a ymgeisir a'r rhai llwyddiannus yn sector bwyd a diod y DU
- Sut mae bwyd a diod a geir trwy EDF yn cael ei storio, ei gludo a'i werthu i'r gadwyn fwyd wedi hynny

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cyfoethogi ac ehangu'r data sydd gennym ar y bygythiad hwn, er mwyn gallu cynnal dadansoddiad pellach o'r wybodaeth
- Defnyddio'r mewnwleidiad hwn i ddatblygu a chanolbwyntio ymyriadau gorfodi ac atal
- Cefnogi'r camau a gymerir gan bartneriaid yn erbyn y rhai sy'n cyflawni EDF
- Cyfathrebu i'r diwydiant yr arwyddion sy'n rhybuddio am EDF a sut i ddiogelu eu hunain rhag y math hwn o dwyll

Cyflenwad bwyd anghyfreithlon sy'n gwasanaethu galw cymunedol penodol

Mae'r DU yn gartref i lawer o gymunedau sydd â diwylliannau, treftadaeth â chysylltedd rhyngwladol. Gall y galw am gynhyrchion bwyd a diod o wledydd a diwylliannau cartref arwain at fewnforio cynhyrchion bwyd yn anghyfreithlon, gan gynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, a phrosesu anghyfreithlon yn y DU i ateb y galw hwnnw. Mae rhai agweddau ar y galw yn amrywio yn ôl tymhorau, neu maent yn gysylltiedig â digwyddiadau calendr penodol.



Un testun pryder yn y maes hwn yw mewnforio cynhyrchion sy'n peri risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid (trwy drosglwyddo clefydau fel Clwy Affricanaidd y Moch).

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth

- Cynhyrchion penodol sy'n peri pryder y mae galw mawr amdanynt yn y wlad hon, a faint o'r rheiny sy'n cael eu mewnforio neu eu cynhyrchu'n anghyfreithlon ar hyn o bryd
- Y dulliau a ddefnyddir gan y rheiny sy'n ymwneud â'r math hwn o droseddu er mwyn osgoi cael eu canfod
- Ble mae'r prif farchnadoedd ar gyfer y cynhyrchion hyn, ym mha gymunedau ac ardaloedd, a sut mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu marchnata?

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid gorfodi i nodi ble a sut mae bwyd a fewnforir yn anghyfreithlon yn dod i mewn i'r wlad
- Gwella prosesau rhannu gwybodaeth â phartneriaid rhyngwladol mewn perthynas â'r mater hwn
- Cyfleu risgiau bwyd sydd wedi'i fewnforio neu wedi'i gynhyrchu yn anghyfreithlon i'r cymunedau y mae'r arferion hyn yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt
- Datblygu a gweithredu ymyriadau priodol i atal ac amharu ar weithgarwch o'r math hwn

Defnyddio llwyfannau e-fasnach i hwyluso troseddau bwyd

Boed trwy llwyfannau prif ffrwd, cyfryngau cymdeithasu, gwefannau masnachu annibynnol neu hyd yn oed y We Dywyll, mae e-fasnach yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i farchnata a gwerthu bwyd a chynhwysion bwyd. Er y gall hyn ddod â buddion go iawn i ddefnyddwyr, bydd peth o'r fasnach hon yn dwyllodrus, yn gamarweiniol neu'n beryglus ei natur.



Mae hwn yn faes o ddi-ddordeb strategol i'r ASB ac i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae gorgyffwrdd clir â meysydd blaenoriaeth eraill, yn benodol o ran cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd a mesurau anghyfreithlon i ddiwallu'r galw gan gymunedau penodol.

Hyd yma, mae gwaith yr Uned yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar werthiant cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd. Fodd bynnag, caiff llwyfannau e-fasnach eu defnyddio i hwyluso mathau eraill o droseddau bwyd.

Er enghraifft, rydym ni'n ymwybodol y gall llwyfannau e-fasnach gael eu defnyddio i werthu bwyd twyllodrus, neu i gaffael cynhwysion neu ddeunyddiau eraill i'w defnyddio mewn arferion anghyfreithlon yn y gadwyn fwyd (fel gwrthfotigau, deunyddiau difwyno (*adulterant*) neu ficrosglodion anifeiliaid).

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth

- I ba raddau y defnyddir e-fasnach i hwyluso neu gefnogi troseddau bwyd
- Meysydd lle mae e-fasnach yn galluogi troseddau bwyd trwy werthu cynnyrch nad yw ar gael yn gyffredinol yn y DU
- P'un a yw defnyddwyr sy'n prynu bwyd twyllodrus ac anniogel trwy e-fasnach yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion hyn

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Gwella ein gallu a'n capasiti mewn perthynas ag ymchwilio ar-lein
- Adolygu ein gwybodaeth gyfredol am hwyluso troseddau bwyd trwy e-fasnach, nodi bylchau penodol mewn gwybodaeth a sut i'w llenwi
- Gweithio i fireinio a datblygu perthynas â llwyfannau a marchnadoedd ar-lein
- Datblygu a gweithredu strategaethau atal a fydd yn rhwystro gweithgarwch troseddol ymhellach yn yr amgylcheddau hyn

Beth sy'n agored i droseddau bwyd o fewn gwasanaeth bwyd, a pha mor gyffredin yw hyn

Mae busnes gwasanaeth bwyd yn fusnes sy'n gyfrifol am gynhyrchu, gwerthu neu gludo unrhyw bryd a baratoir y tu allan i'r cartref. Gall hyn fod mewn lleoliadau fel caffis neu fwytai, neu mewn mentrau ar raddfa fwy fel arlwyio digwyddiadau neu i leoliadau fel ffreuturau mewn amrywiaeth o sefydliadau.



Mae sawl math gwahanol o droseddau bwyd yn bosibl yn y sector gwasanaeth bwyd ac oherwydd natur y sector gall y rhain ddod i'r amlwg ar raddfa.

Gallai heriau gweithredu ar rai busnesau gwasanaeth bwyd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Covid-19, gynyddu bregusrwydd i droseddau bwyd, yn ogystal â chymell unigolion llai egwyddorol i fynd ati i droseddu. Felly mae'n flaenoriaeth i'r Uned ddeall yn well y rhannau bregus o'r sector hwn, graddfa'r troseddu bwyd a sut y gallwn ni gydweithio i leihau unrhyw risgiau a chanfod ac atal troseddu.

Ein blaenoriaethau o ran casglu gwybodaeth

- Graddfa'r problemau a nodir yn y sector gwasanaeth bwyd, gan gynnwys y mathau a'r nifer o droseddau bwyd sy'n digwydd
- Natur unrhyw fannau bregus cylchol o fewn y gwahanol agweddau ar gyflenwi a dosbarthu sy'n gwasanaethu'r sector, ynghyd â'r rheiny sy'n codi wrth ddarparu i'r defnyddiwr

Mae'r gweithgarwch rydym ni'n ei gynllunio yn y maes hwn yn cynnwys:

- Ymgysylltu â'r diwydiant gwasanaeth bwyd i wella ffrydiau gwybodaeth am droseddu yn y sector
- Cynnal asesiadau o fannau sy'n agored i dwyll gyda busnesau'r sector gwasanaeth bwyd i nodi risgiau a'u lleihau

Covid-19

Bydd yr heriau a wynebir gan y sector bwyd a diod sy'n gysylltiedig â Covid-19 ac ystyriaethau gweithredol sy'n effeithio ar bartneriaid rheoleiddio yn dylanwadu ar raddfa a natur ein hymateb. Aseswyd bod yr amhariad hwn wedi creu meysydd risg i'r sector bwyd a diod a allai greu amgylchedd sy'n ffafriol i dwyll.

Yn y DU, prin yw'r dystiolaeth o gamfanteisio troseddol yn sgil yr amhariad ar y sector bwyd a diod yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i fod yn wylidwrus wrth i effaith Covid-19 newid ledled y byd, ynghyd ag unrhyw bwysau cysylltiedig ar gadwyni cyflenwi byd-eang.

Y camau nesaf

Er mwyn i ni fod yn hyderus yn ein hasesiad o'r risgiau mwyaf, mae'n hanfodol ein bod yn adlewyrchu ar yr effeithiau y gall ffactorau cymdeithasol, economaidd ac eraill sy'n newid eu cael ar y dirwedd troseddau bwyd. Byddwn ni'n cyhoeddi unrhyw ddiweddariadau i'r Strategaeth Reoli hon.

Rydym ni hefyd yn diweddaru Bwrdd yr ASB ar waith yr Uned yn rheolaidd a bydd hyn yn cynnwys cofnodi ein cynnydd ym mhob un o feysydd ein Strategaeth Reoli.

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth i'w rhannu am droseddau bwyd, p'un a yw'n ymwneud â'n meysydd blaenoriaeth ai peidio, rydym ni'n eich annog i gysylltu â ni. Gallwch chi gysylltu â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd trwy:

Ffonio Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar 020 7276 8787

Cysylltu â ni trwy ein [ffurflen adrodd ar-lein](#)

Anfon e-bost foodcrime@food.gov.uk

Ymweld â'r [wefan](http://www.food.gov.uk/troseddaubwyd) i ddysgu rhagor – www.food.gov.uk/troseddaubwyd